

35. PŴER GWARIO
(Stori o Panama)

Roedd Julio'n byw mewn tŷ pren wedi ei godi ar byst gyda'i fam a'i nain a phedwar brawd a chwaer. Roedd gan ei nain stôl a'i chwaer fach hamog, a dyna'r unig ddodrefn yn ei gartref. Ar y llawr y byddai Julio'n cysgu ac yn bwyta'i fwyd a chadwai ei ddillad mewn bag plastig. Roedd pres yn brin, ac ni chlywsai erioed am bres poced. Ond ar ei bymthegfed pen-blwydd darganfu'r llanc sut deimlad oedd bod yn gyfoethog.

'Pen-blwydd hapus, Julio. Dal dy law allan i mi gael rhoi dy anrheg i ti,' gwenodd Elizabeth. (Cenhades a weithiai yn eglwys Julio oedd Elizabeth.) Ar gledr ei law dododd bymtheg darn deg sent – un am bob blwyddyn o'i fywyd. Yn llawn cyffro, llygadodd y llanc o lwyth Indiaid y Guaymi y pentwr arian. Nid oedd Julio'n fawr o ysgolhaig. Pan oedd yn faban cafodd salwch difrifol a'i gwnaeth yn anodd iddo ddysgu. Ond fe allai rifo pymtheg darn deg sent. Yr oedd yn ffortiwn.

Beth roedd o'n mynd i'w wneud hefo'r arian? I Julio, roedd pacedaid o fisgedi neu ddyrnaid o fints yn bethau moethus. Neu lyfr ysgrifennu newydd neu bensel. Neu anrheg i Nain. Wrth i'r posibiliadau rasio trwy ei feddwl, gwyddai'r bachgen na fyddai'n

gwario'i arian yn siop y pentref. Nid oedd am gynilo'r arian ychwaith. Yr oedd un peth y bu'n dyheu amdano uwchlaw pob dim arall.

A gwên lydan ar ei wyneb, rhoddodd yr arian yn ôl i'w gyfeilles Elizabeth.

'Os gwelwch yn dda, gaf fi Feibl?' gofynnodd.

Nawr, fe wyddon ni am rai Beiblau newydd a gânt eu gadael ar y silff yn hel llwch. Ond doedd dim perygl i hynny ddigwydd i Feibl Julio. Fyddech chi byth yn gwario'r swm mwyaf o arian yn eich bywyd heb wybod eich bod am wneud llawn ddefnydd ohono. Erbyn ei ben-blwydd yn ddwy ar bymtheg roedd gan Julio un uchelgais fawr. Roedd am fod yn bregethwr. Gwyddai fod pasio'r arholiadau eglwysig yn galed. Ond roedd yn benderfynol. Ac yn weithiwr caled. A chredai ei gyfeilles, y genhades Elizabeth, y byddai'n llwyddo.

O'r pentref lle roedd Julio'n byw gallech weld bae Cusapin, gyda'i ddyfroedd glas, y tywod euraidd a'r rîff gwrel. Un diwrnod, ychydig fisoedd wedi ei ben-blwydd yn ddwy ar bymtheg, rhwyfodd Julio a'i gyfaill eu cwch allan i'r môr tu draw i'r rîff i bysgota am grwbanod môr. Yr oedd cig crwban y môr yn flasus ac roedd gobaith am ddal clamp o un mawr. Cyn bo hir sylwodd y ddau ar siâp tywyll yn llithro trwy'r dŵr gloyw.

'Dyma fo'n swper!' Byddai'r crwban hwn yn sicr yn wledd. Roedd yn tynnu am fetr o hyd. Yn eiddgar bwriodd y ddau lanc eu picelli i'r dŵr. I ddal y crwban rhaid fyddai gwthio blaen y bicell o dan ei gragen.

'Dwi wedi'i ddal o!' bloeddiodd Julio'n fuddugoliaethus. Ond nid oedd pethau drosodd eto. Un peth oedd trywanu'r crwban. Ond roedd ganmil anoddach ceisio llusgo'r creadur anferth i'r cwch – yn enwedig pan oedd y crwban yn barod i ymladd. Ac *fe* ymladdodd i'r eithaf. Bu'n fflapio. Bu'n gwingo. Rhaid oedd i'r ddau lanc ymestyn mor bell ag y gallent dros ymyl y cwch. Ac yna'n sydyn, dyma'r cwch yn troi drosodd. Cafodd y ddau fachgen eu dal oddi tano. Roedd Julio'n anymwybodol – yr oedd wedi cael ergyd i'w ben. Heb wastraffu eiliad gwnaeth ei gyfaill bob ymdrech i'w gael yn rhydd. Ond, yn y diwedd, bu'n rhaid iddo nofio i'r

wyneb hebddo. Gwaeddodd am gymorth, ond roedd yn rhy hwyr. Ac felly, heb unrhyw rybudd, un prynhawn braf o Fehefin, bu Julio farw.

Yn efengyl Luc dywed Iesu stori am ŵr a fu farw'n annisgwyl fel Julio. Fel Julio roedd gan yntau gynlluniau mawr. Ond dyna'r unig debygrwydd rhyngddynt. Oherwydd dim ond cynlluniau ar gyfer y byd presennol a wnaeth y gŵr yn y stori. Wrth farw collodd bob dim. A dywedodd Iesu ei fod yn ffŵl.

Allai neb ddweud hynny am Julio. Pan fu farw, wylodd y pentref cyfan. Ond yn eu galar, roedd yn gysur i deulu a ffrindiau Julio wybod am y cyfoeth ysbrydol a'i disgwyliai yn y nefoedd. Gadawodd ar ei ôl un Beibl a llawer o ôl byseddu arno – y llyfr oedd wedi ei baratoi ar gyfer bywyd tragwyddol. Ni chafodd pymtheg darn deg sent erioed eu gwario mor ddoeth.

HYD: 4 munud

NEGES: Nid yw eiddo materol yn parhau am byth, ond fe wna eiddo ysbrydol.

DARLLEN: Luc 12: 15–21